**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 8 Mai 2002 |
| **Amser** | 9:30am |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl** | Cyflwyno Mr Jan Olbrycht, Marsial Silesia, Gwlad Pwyl |

**Cyflwyno Mr Jan Olbrycht, Marsial Silesia, Gwlad Pwyl**

**Pwrpas**

1. Cyflwyno Mr Jan Olbrycht, Marsial Silesia, Gwlad Pwyl, i'r Pwyllgor. Bydd yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (eitem 2).

**Argymhelliad**

2. Dylai'r Aelodau nodi cynnwys y papur hwn.

   **Cefndir**

3. Cefnogodd Aelodau'r Pwyllgor y camau i sefydlu gweithgor i roi cyngor ar y cyfleoedd a'r heriau i Gymru yn sgil ehangu'r UE. Fel rhan o'r strategaeth o feithrin cysylltiadau pwrpasol â gwledydd Canol a Dwyrain Ewrop, bu Prif Weinidog Cymru yn ymweld â Silesia yng Ngwlad Pwyl fis Rhagfyr diwethaf.

5. Bu'r Prif Weinidog yn ymweld â Silesia ar 18/19/20 Rhagfyr 2001. Un o'r materion dan sylw yn ystod yr ymweliad oedd a fyddai o fudd i Gymru a Silesia lunio Memorandwm Dealltwriaeth ffurfiol. Bu'r Prif Weinidog yn trafod hyn â Mr Olbrycht, Prif Weinidog Silesia, ei Weinidogion a'i swyddogion.
6. Bu'r Prif Weinidog hefyd yn trafod â Dirprwy Weinidog Gwlad Pwyl dros Ddatblygu Economaidd, a phobl flaenllaw eraill yn Warsaw, y posibilrwydd o ffurfio partneriaeth rhwng Cymru a Silesia mewn sawl maes polisi.
7. Gwahoddwyd Mr Olbrycht i ymweld â Chymru gan y Prif Weinidog. Mae CV Mr Olbrycht yn

**Nogfen A** a phapur briffio byr ar ranbarth Silesia yn **Nogfen B**.

8. Bydd Mr Olbrycht yn rhoi cyflwyniad ar Silesia ac yn trafod y rhagolygon ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru a Gwlad Pwyl yn y dyfodol.

**Cydymffurfio**

5. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

6. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol eraill i'r Cynulliad yn sgil y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**